
Y Cod Cyfathrebiadau Electronig

Datganiad

Deddf yr Economi Ddigidol: Cod Ymarfer, Telerau Cytundeb Safonol a Hysbysiadau Safonol

DATGANIAD

Dyddiad Cyhoeddi: 15 Rhagfyr 2017

Gair am y ddogfen hon

Ym mis Ebrill 2017 cafodd Bil yr Economi Ddigidol Gydsyniad Brenhinol gan ddau Dŷ'r Senedd, a daeth yn Ddeddf yr Economi Ddigidol. Ymysg pethau eraill roedd Deddf yr Economi Ddigidol yn diwygio'r 'cod cyfathrebiadau electronig' drwy gyflwyno amrywiaeth o fesurau i'w gwneud hi'n haws i weithredwyr rhwydweithiau gyflwyno seilwaith (fel mastiau ffôn, cyfnewidfeydd a chabinetau) ar dir cyhoeddus ac ar dir preifat. Mae'r diwygiadau i'r cod cyfathrebiadau electronig yn Neddf yr Economi Ddigidol yn amrywiol ac yn arbennig o arwyddocaol i weithredwyr rhwydweithiau, tirlfeddianwyr a meddianwyr. Maen nhw'n cynnwys dyletswyddau newydd ar Ofcom i gyhoeddi:

- Cod Ymarfer a fydd yn mynd gyda'r newidiadau i'r cod cyfathrebiadau electronig;
- nifer o hysbysiadau templed y bydd yn rhaid i Weithredwyr y Cod a thirlfeddianwyr/meddianwyr eu defnyddio neu y cânt eu defnyddio (bydd yn dibynnu ar yr amgylchiadau dan sylw); a
- telerau safonol y bydd modd i weithredwyr y Cod a thirlfeddianwyr neu feddianwyr eu defnyddio wrth drafod cytundebau i gyflwyno hawliau Cod (ond ni fydd angen iddynt wneud hynny).

Roedd Ofcom wedi paratoi fersiynau drafft o bob un o'r dogfennau y cyfeirir atyn nhw uchod ac wedi ymgynghori yn eu cylch, ac mae nawr yn cyhoeddi fersiynau terfynol y dogfennau hyn yn ogystal â datganiad.

Cynnwys

Adran

1. Crynodeb Gweithredol	1
2. Cyflwyniad	3-10

1. Crynodeb Gweithredol

- 1.1 Mae'r cod cyfathrebiadau electronig (“y Cod”) yn rhoi hawliau penodol i weithredwyr rhwydweithiau cyfathrebu (“**Gweithredwyr y Cod**”) y mae'r cod yn berthnasol iddyn nhw i osod a chynnal offer cyfathrebiadau electronig ar dir cyhoeddus. Ar ben hynny, caiff Gweithredwr y Cod wneud cais am orchymyn llys i osod a chynnal a chadw offer ar dir preifat, os nad yw wedi gallu dod i gytundeb gyda'r tirlfeddiannwr.
- 1.2 Ym mis Ebrill 2017 cafodd Bil yr Economi Ddigidol Gydsyniad Brenhinol gan ddau Dŷ'r Senedd, a daeth yn Ddeddf yr Economi Ddigidol. Mae'n cyflwyno Cod¹ newydd sy'n cynnwys rhwymedigaethau newydd ar Ofcom i gyhoeddi:
- Cod Ymarfer i fynd gyda'r Cod newydd;
 - telerau safonol y bydd modd i weithredwyr y Cod a thirfeddiannwyr neu feddiannwyr eu defnyddio wrth drafod cytundebau i gyflwyno hawliau Cod (ond ni fydd angen iddynt wneud hynny); a
 - nifer o hysbysiadau templed y bydd yn rhaid i Weithredwyr y Cod a thirfeddiannwyr/meddiannwyr eu defnyddio neu y cânt eu defnyddio (bydd yn dibynnu ar yr amgylchiadau dan sylw).
- 1.3 Roedden ni wedi cyhoeddi ymgynghoriad ar 24 Mawrth 2017 (“yr Ymgynghoriad”)². Diben yr ymgynghoriad oedd rhoi cyfle i randdeiliaid gyflwyno sylwadau ar fersiynau drafft o bob un o'r dogfennau y cyfeirir atynt uchod. Roedden ni'n cydnabod y gallai'r Bil Economi Ddigidol fel yr oedd adeg honno gael ei ddiwygio ymhellach cyn iddo ddod yn Ddeddf, ond roedden ni'n credu ei bod hi'n briodol ymgynghori ar y cam hwnnw i sicrhau y byddem yn gallu cydymffurfio â'n dyletswyddau statudol cyn gynted ag y byddai darpariaethau perthnasol y Ddeddf a fyddai'n dilyn yn dod i rym.
- 1.4 Ar ôl ystyried sylwadau'r rhanddeiliaid, rydyn ni wedi penderfynu bod y ffordd roedden ni wedi cynnig yn yr Ymgynghoriad i ddiwallu ein dyletswyddau perthnasol o dan baragraffau 90 (mewn perthynas â'r hysbysiadau), 103(1) (mewn perthynas â'r Cod Ymarfer), a 103(2) (mewn perthynas â'r telerau safonol), yn dal yn briodol er ein bod wedi gwneud newidiadau i'r dogfennau hynny lle'r oedden ni'n credu bod hynny'n briodol yn unol â sylwadau gan randdeiliaid.
- 1.5 Rydyn ni'n credu y gallai fod yn ddoeth i Ofcom adolygu'r Cod Ymarfer, y telerau safonol a'r hysbysiadau os oes angen, ar ôl cyfnod priodol er mwyn ystyried eu heffeithiolrwydd a phrofiad rhanddeiliaid yn eu defnyddio. Byddem yn disgwyl gweithio gyda'r partïon perthnasol wrth wneud hyn. Rydyn ni'n nodi nad ydy'r ddyletswydd ffurfiol i ymgynghori yn berthnasol i ddiwygiadau neu elfennau newydd,³ fodd bynnag rydyn ni'n credu y byddai'n briodol cynnal adolygiad o'r fath yn unol â'n hegwyddorion ymgynghori arferol. Byddai hyn

¹ Edrychwch ar Atodlen 1 i Ddeddf yr Economi Ddigidol.

² https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0031/99148/ecc-consultation.pdf. Daeth y cyfnod ymgynghori ffurfiol i ben ar 2 Mehefin 2017.

³ Edrychwch ar baragraffau 90(4) a 103(5) o'r Cod newydd.

yn galluogi pob parti sydd wedi defnyddio'r hysbysiadau, y Cod Ymarfer, a'r telerau safonol (neu sydd wedi penderfynu peidio â defnyddio'r telerau safonol) i ymgysylltu ag Ofcom a rhannu eu safbwyntiau.

- 1.6 Yn olaf, roedd rhanddeiliaid wedi cwestiynu yn y gorffennol a oedd y berthynas rhwng darparwyr seilwaith cyfanwerthol a'r darparwyr cyfathrebiadau'n yn cael ei llywodraethu'n effeithiol gan y Cod ynteu a fyddai'n dod o dan gwmpas pwerau rheoleiddio eraill Ofcom. Fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad, gallwn gadarnhau y gallai rhai o bwerau statudol eraill Ofcom ein galluogi, mewn egwyddor, i reoleiddio ar ba delerau y byddai darparwyr seilwaith cyfanwerthol yn rhoi mynediad i'w seilwaith.

2. Cyflwyniad

Trosolwg

- 2.1 Mae'r Cod yn rheoleiddio'r berthynas gyfreithiol rhwng tirfeddianwyr/meddianwyr a Gweithredwyr Cod gan roi hawliau i rai darparwyr rhwydweithiau a systemau sianeli cyfathrebiadau electronig⁴ (a ddynodwyd gan Ofcom yn 'Weithredwyr y Cod') i osod a chynnal offer cyfathrebiadau electronig (gan gynnwys mastiau, cyfnewidfeydd, cabinetau a cheblau) ar dir cyhoeddus. Mae'r Cod hefyd yn galluogi gweithredwyr i wneud cais am orchymyn llys i osod a chynnal a chadw offer ar dir preifat, os nad ydynt wedi gallu dod i gytundeb gyda'r tirfeddiannwr/meddiannwr.
- 2.2 Ym mis Ebrill 2017 cafodd Bil yr Economi Ddigidol Gydsyniad Brenhinol gan ddau Dŷ'r Senedd, a daeth yn Ddeddf yr Economi Ddigidol. Ymysg pethau eraill, roedd Deddf yr Economi Ddigidol yn cyflwyno Cod newydd a oedd yn disodli'r Cod blaenorol a nodir yn Atodlen 2 Deddf Telegyfathrebiadau 1984. Mae'r Cod newydd yn cyflwyno amrywiaeth o fesurau i'w gwneud hi'n haws i Weithredwyr y Cod gyflwyno offer cyfathrebiadau electronig.⁵
- 2.3 Mae'r diwygiadau a gyflwynwyd gan y Cod newydd yn amrywiol ac yn cynnwys, er enghraifft, newidiadau sylweddol i'r ffordd y caiff tir ei brisio a hawl awtomatig i Weithredwyr y Cod uwchraddio a rhannu eu hoffer telegyfathrebiadau.
- 2.4 Mae'r Cod newydd hefyd yn cynnwys rhwymedigaethau newydd ar Ofcom i gyhoeddi:
- Cod Ymarfer a fydd yn mynd gyda'r Cod newydd;
 - nifer o hysbysiadau templed y bydd yn rhaid i Weithredwyr y Cod a thirfeddianwyr/meddianwyr eu defnyddio neu y cânt eu defnyddio (bydd yn dibynnu ar yr amgylchiadau); a
 - telerau safonol y bydd modd i Weithredwyr y Cod a thirfeddianwyr/meddianwyr eu defnyddio wrth drafod cytundebau i gyflwyno hawliau Cod (ond ni fydd angen iddynt wneud hynny).
- 2.5 Roedden ni wedi cyhoeddi ein hymgyngoriad ar 24 Mawrth 2017.⁶ Diben yr Ymgynghoriad oedd rhoi cyfle i'r rheini sydd â diddordeb, yn unol â pharagraffau 90(3) a 103(4) y Cod newydd, gyflwyno sylwadau ar fersiynau drafft y dogfennau hyn.

⁴ O ganlyniad i Ddeddf yr Economi Ddigidol (edrychwch ar adran 4), mae cyfeiriadau at "sianel" a "sianeli" yn adran 106 Deddf Cyfathrebiadau 2003 wedi cael eu newid i "seilwaith" (edrychwch ar baragraff 7 y Cod newydd i gael diffiniad o "system seilwaith"). Mae Paragraff 3 Atodlen 3 Deddf yr Economi Ddigidol yn delio ag unrhyw ddeddfiad sydd wedi cael ei basio neu ei wneud cyn y diwrnod y daw'r Cod newydd i rym sy'n cyfeirio at system sianel neu ddarparu system o'r fath (mae "deddfiad" yn cael ei ddiffinio ym mharagraff 1 Atodlen 3 Deddf yr Economi Ddigidol).

⁵ Cafodd hyn ei gyflawni drwy ddiwygu'r fersiwn gyfredol o'r Cod (a nodir yn Atodlen 2 Deddf Telegyfathrebiadau 1984) a gosod Cod newydd mewn Atodlen 3A newydd i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Mae'r fersiwn newydd o'r Cod wedi'i osod ar hyn o bryd yn Atodlen 1 o Ddeddf yr Economi Ddigidol.

⁶ https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0031/99148/ecc-consultation.pdf

- 2.6 Roedden ni'n cydnabod nad oedd Bil yr Economi Ddigidol wedi cael Cydsyniad Brenhinol eto pan roedd yr ymgynghoriad yn dechrau ac y gallai gael ei ddiwygio ymhellach yn ystod y broses ddeddfwriaethol. Fodd bynnag, roedden ni'n credu ei bod hi'n briodol ymgynghori ar y cam hwnnw er mwyn i ni allu cydymffurfio â'n dyletswyddau statudol cyn gynted ag y byddai Atodlen 1 Deddf yr Economi Ddigidol yn dod i rym, neu yn fuan ar ôl hynny.⁷

Hanes y Cod Cyfathrebiadau Electronig

- 2.7 Mae'r Cod yn dyddio'n ôl i 1984 pan gafodd ei gyflwyno i reoleiddio darparu teleffoni llinell dir o dan Atodlen 2 y Ddeddf Telegyfathrebiadau. Cafodd ei ddiwygio wedyn gan Atodlen 3 Deddf Cyfathrebiadau 2003,⁸ er mwyn ei alluogi i gefnogi'r seilwaith sy'n darparu band eang, rhyngwrwyd symudol a theledu cebl.
- 2.8 Cynhaliodd Comisiwn y Gyfraith adolygiad o'r Cod rhwng 2011 a 2013, mewn ymateb i gais gan yr Adran dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon. Roedd ei adolygiad, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2013,⁹ yn cynnwys dros 15 tudalen o argymhellion i ddiwygio.
- 2.9 Yn nes ymlaen yn 2013, cyflwynodd y Ddeddf Twf a Seilwaith¹⁰ gyfres o ddiwygiadau dros dro (a oedd yn para 5 mlynedd) i'r Cod. Cawsant eu cynllunio yn benodol i gyflymu'r gwaith o osod seilwaith band eang.
- 2.10 Ddechrau 2015, cyflwynodd Llywodraeth y Glymblaid ddiwygiadau i'r Bil Seilwaith a fyddai, petaent yn dod i rym, wedi cynnwys diwygiadau sylweddol i'r Cod¹¹ ar sail argymhellion Comisiwn y Gyfraith. Cafodd y diwygiadau hyn wedyn eu tynnu'n ôl oherwydd pryderon gan randdeiliaid, er mwyn gallu cynnal rhagor o ymgynghori ac ymchwil. Cyhoeddodd yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedyn ei Dogfen Ymgynghori ei hun ym mis Chwefror 2015. Roedd y cyfnod ymgynghori ffurfiol ar agor am 9 wythnos gan ddod i ben ar 30 Ebrill 2015. Ar ôl hyn, cynhaliodd yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ymgynghoriad pellach â'r holl randdeiliaid a chomisiynodd ymchwil economaidd annibynnol i effaith amrywiaeth o ddewisiadau diwygio ar y farchnad.
- 2.11 Ym mis Mai 2016, cyhoeddodd y Llywodraeth y byddai'r Cod yn cael ei ddiwygio yn y Bil Economi Ddigidol a oedd ar y gweill, "gan gynnig diwygiadau mawr i'r hawliau sydd gan ddarparwyr cyfathrebiadau o ran cael mynediad i dir."¹²

⁷ Daw Atodlen 1 Deddf yr Economi Ddigidol i rym ar ddyddiad a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol drwy offeryn statudol (adran 118(6), Deddf yr Economi Ddigidol).⁸ [Deddf Cyfathrebiadau 2003, Adran 106, Atodlen 3: Diwygiadau Atodlen 2 Deddf Telegyfathrebiadau 1984](#)

⁸ [Deddf Cyfathrebiadau 2003, Adran 106, Atodlen 3: Diwygiadau Atodlen 2 Deddf Telegyfathrebiadau 1984](#)

⁹ [Comisiwn y Gyfraith, Y Cod Cyfathrebiadau Electronig, 27 Chwefror 2013](#)

¹⁰ [Deddf Twf a Seilwaith 2013, adran 9](#)

¹¹ [Telegyfathrebiadau, Ateb Ysgrifenedig, 6 Ionawr 2015](#)

¹² [Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, Cod Cyfathrebiadau Electronig Newydd, 17 Mai 2016, tudalen 4](#)

Ein dyletswyddau fel y nodir yn Neddf yr Economi Ddigidol

2.12 Fel sy'n cael ei egluro uchod, mae'r Cod newydd a osodir yn Atodlen 1 Deddf yr Economi Ddigidol yn mynnu bod Ofcom yn paratoi ac yn cyhoeddi nifer o ddogfennau.

Cod Ymarfer

2.13 Mae paragraff 103(1) o'r Cod newydd yn mynnu bod Ofcom yn paratoi ac yn cyhoeddi cod ymarfer yn delio â:

- a) darparu gwybodaeth at ddibenion y Cod newydd gan weithredwyr i'r rheini sy'n meddiannu'r tir neu sydd â buddiant yn y tir;
- b) cynnal trafodaethau at ddibenion y Cod newydd rhwng gweithredwyr ac unigolion o'r fath;
- c) ymddygiad gweithredwyr mewn perthynas ag unigolion sy'n meddiannu tir neu sydd â buddiant mewn tir sy'n gyfagos i dir lle caiff offer cyfathrebiadau ei osod arno, oddi tano neu drosto; a
- d) materion eraill sy'n ymwneud â gweithredu'r Cod newydd fel mae Ofcom yn credu sy'n briodol.

Proses ddatblygu'r Cod Ymarfer drafft

2.14 Roedd Ofcom wedi gweithio gyda sbectrwm eang o randdeiliaid i ddatblygu ei ddrafft cychwynnol o'r Cod Ymarfer. Roedd hyn yn cynnwys cynrychiolwyr o'r gymuned gweithredwyr sefydlog a symudol, darparwyr seilwaith cyfathrebiadau a chynrychiolwyr o Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad, Ffederasiwn Eiddo Prydain a Chymdeithas Ganolog y Priswyr Amaethyddol.

2.15 Drwy gydol y broses, roedd Ofcom wedi bod yn hwylusydd niwtral, gyda'r amcan o hybu trawstoriad cytbwys o gynrychiolwyr o grwpiau rhanddeiliaid gwahanol er mwyn dod i gonsensws a oedd yn adlewyrchu ystod eang o fuddiannau a phryderon.

2.16 Ar 28 Gorffennaf 2016 cynhaliodd Ofcom gyfarfod cwmpasu cychwynnol gyda rhanddeiliaid yn nodi sut roedd am fynd ati i gynnal y broses o ddrafftio'r Cod Ymarfer, a gofynnodd i gymunedau rhanddeiliaid gwahanol enwebu cynrychiolwyr i wasanaethu ar Grŵp Drafftio Cod Ymarfer. Cafodd aelodaeth y grŵp hwn wedyn ei chadarnhau ym mis Medi 2016. Roedd yn cynnwys wyth ymarferydd arbenigol, a oedd yn cynrychioli tîrfeddiannwyr, gweithredwyr rhwydweithiau cyfathrebu a darparwyr seilwaith.

2.17 Rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2016 paratôdd y Grŵp Drafftio fersiynau olynol o'r ddogfen Cod Ymarfer ddrafft, a gafodd ei hadolygu mewn cyfarfodydd misol wedi'u cynnal gan Ofcom gyda'r nod o gasglu mewnbwn ychwanegol gan grŵp ehangach o randdeiliaid ar draws y sector.

2.18 Ochr yn ochr â'r broses o ymgysylltu â rhanddeiliaid y brif ffrwd, roedd Ofcom wedi paratoi templedi ategol ar gyfer hysbysiadau safonol a thelerau safonol (edrychwch ar Atodiad 6-7

yn y ddogfen Ymgynghori), roedd y telerau yn seiliedig ar ddeunyddiau a gyflwynwyd gan y grŵp rhanddeiliaid ehangach y cyfeirir ato uchod.

- 2.19 Yn unol â'r amserlen roedden ni wedi cytuno arni ymlaen llaw, cyflwynodd y Grŵp Drafftio fersiwn terfynol o'r Cod Ymarfer drafft i Ofcom ar 16 Rhagfyr 2016. Roeddem wedi adolygu eu hallbwn ac yn credu, gyda rhai mân ddiwygiadau drafftio, ei fod yn diwallu'r gofynion a nodir ym mharagraff 103(1) y Cod newydd. Roedd y Cod Ymarfer drafft a'r Atodlenni cysylltiedig wedi cael eu gosod yn Atodiadau 4 a 5 i'r Ymgynghoriad.

Telerau safonol

- 2.20 Mae paragraff 103(2) y Cod newydd yn mynnu bod Ofcom yn paratoi ac yn cyhoeddi telerau safonol y byddai modd eu defnyddio mewn cytundebau o dan y Cod newydd (er na fyddai angen gwneud hynny).
- 2.21 Roedden ni felly wedi paratoi cyfres o delerau safonol y byddai modd iddyn nhw gael eu defnyddio gan bartïon sydd eisiau dod i gytundeb ynghylch cyflwyno hawliau Cod o dan y Cod newydd.¹³
- 2.22 Er mwyn helpu i baratoi'r telerau safonol hyn, roeddem wedi gofyn i aelodau o'r Grŵp Drafftio Cod Ymarfer os byddent yn fodlon rhannu copïau o'u cytundebau Cod templed â ni. Roedd nifer o'r aelodau wedi rhannu eu cytundebau â ni ac roedden ni wedi defnyddio'r rhain er mwyn drafftio'r telerau safonol roedden ni wedi ymgynghori yn eu cylch.
- 2.23 Roedden ni wedi egluro yn yr Ymgynghoriad, wrth baratoi'r telerau safonol hyn, ein bod wedi ystyried safbwyntiau ac argymhellion Comisiwn y Gyfraith.¹⁴ Yn benodol, eglurodd Comisiwn y Gyfraith, ymysg pethau eraill, y byddai telerau safonol yn ddefnyddiol ar y sail eu bod yn gallu rhoi man cychwyn defnyddiol ar gyfer trafodaethau, ond y byddai modd eu diwygio yn ôl yr angen er mwyn diwallu amgylchiadau penodol. Roedd o'r farn, ar y lefel mwyaf sylfaenol, y gallai telerau safonol helpu partïon, yn enwedig tîrfeddianwyr, i sicrhau nad oedd telerau pwysig yn cael eu hanghofio.
- 2.24 Roedden ni'n cydnabod efallai y bydd rhai paratoi wedi ystyried y byddai'n ddefnyddiol petai Ofcom wedi paratoi mwy nag un set o delerau safonol. Fodd bynnag, ar ôl ystyried hyn yn ofalus ein barn ni oedd nad oedd angen gwneud hyn ac mai cyfyngedig (os o gwbl) fyddai gwerth paratoi mwy nag un set o delerau.
- 2.25 Roedden ni hefyd yn nodi nad ydy Deddf yr Economi Ddigidol – neu Fil yr Economi Ddigidol fel ag yr oedd adeg cyhoeddi'r Ymgynghoriad – yn mynnu bod Ofcom yn paratoi mwy nag un set o delerau safonol. Ar ben hynny, roedd Comisiwn y Gyfraith yn cydnabod, y bydd cytundebau Cod, yn ymarferol, yn berthnasol i ystod eithriadol o eang o amgylchiadau: y dechnoleg sydd i'w gosod i nodweddion ffisegol y safle a'r dull gweithredu sy'n cael ei ffafrio ac yn aml bydd soffistigeiddrwydd partïon y cytundeb yn dra gwahanol. Byddai'n dasg fawr i Ofcom baratoi amrywiaeth o delerau safonol sy'n addas i bob math o dechnoleg, safle,

¹³ Edrychwch ar Atodiad 6 yr Ymgynghoriad.

¹⁴ [Comisiwn y Gyfraith, Y Cod Cyfathrebiadau Electronig, 27 Chwefror 2013, tudalennau 203 – 205.](#)

gweithredwr a thirfeddiannwr/meddiannwr ac nid oedd hi'n glir i ni y byddai hyn o fudd i Weithredwyr y Cod a'r trefeddiannwyr/meddiannwyr.

- 2.26 I'r perwyl hwn, roedden ni wedi pwysleisio mai diben y telerau safonol oedd rhoi man cychwyn i'r partïon ar gyfer eu trafodaethau, yn hytrach na darparu set derfynol o delerau ar gyfer pob parti. Roedden ni'n disgwyl y byddai hi'n well gan nifer o ddarparwyr safle a Gweithredwyr Cod profiadol ddefnyddio eu telerau eu hunain ac, ar gyfer trafodion sy'n fwy cymhleth, mae'n debyg y bydd partïon yn gofyn am gyngor cyfreithiol annibynnol i sicrhau bod eu cytundeb Cod wedi'i deilwra'n briodol yn ôl eu hamgylchiadau penodol. Roeddem hefyd wedi dweud ein bod yn ymwybodol bod ffynonellau eraill o delerau ac amodau safonol sydd wedi cael eu datblygu drwy ymgynghoriadau rhwng partïon sydd â diddordeb. Er mwyn rhoi enghraifft roedden ni wedi cyfeirio at yr adeilad swyddfa aml-breswlydd a ddatblygwyd ar gyfer Dinas Llundain.¹⁵
- 2.27 Cawsom nifer fawr o sylwadau am dalu, sy'n cael eu trafod yn nes ymlaen yn y ddogfen mewn perthynas â Chymal 3: Talu. At ei gilydd roedd yr ymatebwyr naill ai'n poeni nad oedd y Telerau Safonol yn mynd yn ddigon pell o ran gosod disgwyliadau ar gyfer adolygiadau tâl a rhent, neu roeddent yn poeni ei bod hi'n ymddangos bod y Telerau Safonol yn tybio y byddai rhywfaint yn cael ei dalu yn yr holl amgylchiadau. Fel sy'n cael ei nodi yn nes ymlaen yn y ddogfen, dylid ystyried tâl ac iawndal fel mater i'w drafod rhwng partïon. Byddai rhyddid i bartïon amrywio eu cytundebau, er enghraifft adolygu taliadau, heb fod angen cymal yn y Telerau Safonol sy'n darparu'n benodol ar gyfer hawl o'r fath, ar yr amod bod amrywiad o'r fath yn cydymffurfio â'r gofynion sy'n cael eu nodi ym mharagraff 11 y Cod newydd. Fodd bynnag, yn unol â nifer o sylwadau ar nifer o drefniadau mynediad syml, byddem yn cytuno efallai mai dim taliad fyddai'r drefn arferol ar gyfer rhai mathau o drefniadau mynediad.

Hysbysiadau templed

- 2.28 Mae paragraff 90 o'r Cod newydd yn darparu ei bod yn rhaid i Ofcom "ragnodi ffurf hysbysiad a roddir dan bob un o ddarpariaethau'r cod hwn sy'n mynnu bod hysbysiad yn cael ei roi". Mae'n rhaid i Ofcom felly gyhoeddi nifer o hysbysiadau templed y byddai'n rhaid i Weithredwyr y Cod a thirfeddiannwyr/meddiannwyr eu defnyddio neu y caent eu defnyddio (gan ddibynnu ar yr amgylchiadau).¹⁶
- 2.29 Rydyn ni felly wedi paratoi nifer o hysbysiadau templed i'w defnyddio rhwng Gweithredwyr y Cod a phartïon eraill.¹⁷ Roedden ni wedi egluro, mewn nifer o achosion, bod yr hysbysiadau roedden ni'n eu 3

¹⁵ Dinas Llundain, [Digital Infrastructure Toolkit, standardised wayleave agreement](#), cyrchwyd 15 Mawrth 2017 – mae'r ddogfen hon yn cael ei hadolygu a'i diweddarau'n rheolaidd.

¹⁶ Pan fydd ffurf yr hysbysiad yn cael ei ragnodi gan Ofcom, bydd paragraffau 88(2) a 89(2) o'r Cod newydd yn mynnu, er mwyn iddynt fod yn ddilys, ei bod yn rhaid i hysbysiadau a roddir gan Weithredwyr y Cod a rhai hysbysiadau a roddir gan bartïon eraill fod ar y ffurf a ragnodir. Fodd bynnag, mae paragraffau 89(5) a (6) yn nodi bod modd rhoi rhai hysbysiadau penodol eraill, ar wahân i'r rheini gan weithredwr, ar ffurf ar wahân i'r ffurf a ragnodir gan Ofcom (ar yr amod bod y parti sy'n rhoi'r hysbysiad yn talu am y costau canlyniadol i'r gweithredwr, os bydd rhai).

¹⁷ Edrychwch ar Atodiad 7 yr Ymgynghoriad.

- 2.30 rhagnodi yn rhai dewisol (hy mae modd eu rhoi ond nid oes yn rhaid eu rhoi). Fodd bynnag, roeddem wedi dehongli ein rhwymedigaeth arfaethedig o dan baragraff 90 o'r Cod newydd yn helaeth ac wedi ceisio darparu fersiynau drafft o hysbysiadau safonol hyd yn oed pan nad oeddent yn angenrheidiol dan y Cod newydd mewn gwirionedd, gan gredu y byddai'n hwyluso newid yn llyfn i drefn y Cod newydd.
- 2.31 Roedden ni hefyd wedi nodi mewn nifer cyfyngedig iawn o achosion, mae'n debyg y byddai gwerth cyfyngedig (os o gwbl) yn Ofcom yn rhagnodi ffurf hysbysiad dewisol. Yn benodol, roeddem o'r farn na fyddai llawer o werth petai Ofcom yn rhagnodi ffurf hysbysiadau o dan baragraffau 32(1)¹⁸ a 39(4)¹⁹ y Cod newydd oherwydd byddai cynnwys unrhyw hysbysiadau o'r fath yn benodol iawn o ran ffeithiau a byddem yn disgwyl i Weithredwyr y Cod allu paratoi'r rhain yn hawdd. Nid oeddem felly'n cynnig rhagnodi ffurf unrhyw hysbysiadau ffurf safonol o dan y paragraffau penodol hyn o'r Cod newydd.
- 2.32 Wrth baratoi'r hysbysiadau safonol sydd wedi'u nodi yn Atodiad 7 yr Ymgynghoriad, roeddem yn ymwybodol o'r angen i sicrhau eu bod mor glir a chryno â phosibl. Roedden ni hefyd yn ymwybodol o baragraff 88(1) y Cod newydd, sy'n mynnu bod Gweithredwyr y Cod wrth roi hysbysiad yn egluro effaith yr hysbysiad, darpariaethau'r Cod sy'n berthnasol i'r hysbysiad, a'r camau mae modd i dderbynwyr eu cymryd mewn perthynas â'r hysbysiad.

Ymatebion i'r Ymgynghoriad

- 2.33 Cawsom 34 o ymatebion i'r Ymgynghoriad²⁰ gan ystod eang o randdeiliaid, ac roedd 4 o'r rheini'n gyfrinachol. Ar y wefan gallwch chi ddarllen y rhain yn llawn a'n sylwadau llawn mewn ymateb iddyn nhw yn Saesneg yn unig.

Cadw llygad ar bethau

- 2.34 Rydym ni'n ystyried y gallai bod yn beth doeth, yn dibynnu ar brofiad partion o ddefnyddio'r dogfennau rydym yn eu cyhoeddi, bod Ofcom yn adolygu'r Cod Ymarfer, y termau safonol a'r hysbysiadau, os yn angenrheidiol, i ystyried eu heffeithlonrwydd. Rydym hefyd yn rhagweld ein bod yn cydweithio gyda phartion perthnasol os byddem yn bwrw ati i wneud hyn. Rydym yn ystyried y byddai'n debygol ei bod hi'n addas i gynnal adolygiad o'r fath yn dilyn ein hegwyddorion ymgynghori arferol. Byddai hyn yn galluogi'r holl bartion sydd wedi defnyddio'r hysbysiadau, y Cod Ymarfer a'r termau safonol (neu sydd wedi penderfynu peidio defnyddio'r termau safonol), i ymgysylltu gydag Ofcom a rhannu eu barn.

Rheoleiddio mynediad i'r seilwaith WIP

- 2.35 Fel wnaethon ni esbonio yn yr Ymgynghoriad, yn ystod datblygu pecynnau o ddiwygiadau i'r Cod wnaeth arwain at y newidiadau a gynigir yn y DEB, fe wnaeth rhanddeiliaid ddarparu amrywiaeth o ymatebion i'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac i Ofcom,

¹⁸ hy gwrth-hysbysiad gan Weithredwr Cod ynghylch terfynu cytundeb Cod.

¹⁹ hy hysbysiad gan Weithredwr Cod yn datgelu a ydy offer ar dir yn unol â hawl Cod.

²⁰ Mae'r ymatebion heb fod yn gyfrinachol wedi cael eu cyhoeddi ar ein gwefan.

ynglŷn ag os oedd y berthynas rhwng y WIPs a'r CPs (yn arbennig y gweithredwyr rhwydwaith symudol), yn cael eu llywodraethu'n effeithiol gan y Cod, ac os nad oeddent, pa ddiwygiadau i'r Cod allai fod yn angenrheidiol.

2.36 Fe wnaethon ni gydnabod bod rhanddeiliaid y diwydiant yn chwilio am gadarnhad, os oedd trafodaeth masnachol neu unrhyw gymrodeddu dilynol yn methu, yna byddai modd rheoleiddio'r termau y mae'r WIPs yn eu defnyddio i ganiatáu mynediad i'w seilwaith.

Rydym yn cadw'r un farn wnaethon ni grybwyll yn yr Ymgynghoriad, sef, tra ei bod hi'n anodd i gynnig barn am fater mor haniaethol, mae gan Ofcom nifer o bwerau statudol a allai'n galluogi ni, mewn egwyddor, i reoleiddio'r termau y mae'r WIPs yn defnyddio i roi caniatâd i ddefnyddio eu seilwaith. Er enghraifft, mae gan Ofcom bwerau penodol i reoleiddio seilwaith o dan y ddeddfwriaeth ganlynol:²¹

- rheoliad 3 (4) o'r Cod Cyfathrebiadau Electronig (Amodau a Chyfyngiadau), Rheoliadau 2003/2553;²²
- adran 73 o'r Ddeddf Gyfathrebiadau 2003 ("Deddf 2003") (h.y. drwy osod amod sy'n ymwneud â mynediad);
- adran 87 o'r Ddeddf 2003 (h.y. drwy osod amod pwer sylweddol yn y farchnad; ac
- adran 185 o'r Ddeddf 2003 (h.y. drwy ddatrys anghydfod yn ymwneud â darpariaeth rhwydwaith).

2.37 Rydym yn nodi, mai yn y lle cyntaf, byddem yn gyffredinol yn ceisio datrys problemau drwy ddefnyddio'r dull mwyaf addas a lleiaf ymwithiol, gan ddefnyddio ymyriadau rheoleiddiol mwy ffurfiol pan yn angenrheidiol yn unig.

²¹Mae gan Ofcom bwerau penodol o dan y gyfraith cystadleuaeth cyffredinol i fynd i'r afael â chamweddau fel goruchafiaeth neu gytundebau nad ydynt yn gystadleuol.

²²Mae Rheoliad 3(4) yn manylu bod gweithredwr Cod 'lle'n ymarferol, yn gallu rhannu'r defnydd o offer cyfathrebiadau electronig". Mae gan Ofcom bwerau o dan adran 110 o'r Ddeddf 2003 i orfodi'r gofyniad hwn.